DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, **Clinig Deintyddol Whitehouse**

28 Medi 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

Digidol ISBN 978-1-4734-5212-1
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........................................................................................ 2

2. Cyd-destun ........................................................................................ 3

3. Crynodeb ........................................................................................ 4

4. Canfyddiadau ........................................................................................ 5

Ansawdd Profiad y Claf ........................................................................................ 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........................................................................................ 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........................................................................................ 12

5. Methodoleg ........................................................................................ 14

6. Y Camau Nesaf ........................................................................................ 16

Atodiad A ........................................................................................ 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o’r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Glinig Deintyddol Whitehouse yn 14 Heol Llangrallo, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr, CF35 5NG ar 28 Medi 2015.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Clinig Deintyddol Whitehouse yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd o arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 5 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Clinig Deintyddol Whitehouse yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Clinig Deintyddol Whitehouse yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG. Cynigir triniaeth breifat ar sail ffi am bob eitem neu fel rhan o gynllun talu misol. Mae triniaeth y GIG ar gael i'r cleifion hynny sydd wedi'u heithrio rhag talu am driniaeth.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pum deintydd (gan gynnwys perchnogion y practis), un hylenydd, pum nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd a gweinyddwr.

## 3. Crynodeb

Mae Clinig Deintyddol Whitehouse yn darparu gofal ag urddas sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae’n gwneud ymdrech i ddarparu’r gofal hwn mewn modd amserol. Mae'r practis yn darparu ffyrdd i gleifion roi adborth ar eu profiadau, gyda'r nod o wella'r gwasanaeth. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Nid oedd y practis yn arddangos rhestr brisiau ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat na'r weithdrefn oedd yn dangos sut gall cleifion leisio pryderon (cwynion) am driniaeth breifat. Rydym wedi gofyn yn ffurfiol i berchnogion y practis roi sylw i'r mater hwn.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cyflenwi gofal diogel ac effeithiol. Roedd mesurau ar waith i amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Gwelsom fod yr offer oedd yn cael eu defnyddio yn y practis i'w gweld mewn cyflwr da ac yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, rydym wedi canfod bod angen gwella'r gwaith o gofnodi gwiriadau ar offer sterileiddio. Roedd y cyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn lân ac wedi’u dodrefnu i hwyluso glanhau effeithiol. Fodd bynnag, er mwyn gwella hyn ymhellach, rydym wedi gofyn yn ffurfiol i berchnogion y practis drefnu i ailosod y sêl rhwng y wal a'r llawr yn yr ardaloedd hyn. Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion, a gweld bod angen rhai gwelliannau er mwyn iddynt fodloni canllawiau safonau clinigol yn llawn.

Gwelsom fod arweinyddiaeth yn y practis yn effeithiol o ran pennu cyfeiriad a gwella safonau trwy feithrin diwylliant o ddysgu a datblygu. Gwnaethom ganfod bod angen rhywfaint o welliant o ran gwneud y dogfennau sy’n ofynnol dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat ar gael, ac rydym wedi gofyn i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis roi sylw i hyn.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Mae Clinig Deintyddol Whitehouse yn darparu gofal ag urddas sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae'n gwneud ymdrech i ddarparu'r gofal hwn mewn modd amserol. Mae'r practis yn darparu ffyrdd i gleifion roi adborth ar eu profiadau, gyda'r nod o wella'r gwasanaeth. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Nid oedd y practis yn arddangos rhestr brisiau ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat na'r weithdrefn oedd yn dangos sut gall cleifion leisio pryderon (cwynion) am driniaeth breifat. Rydym wedi gofyn yn ffurfiol i berchnogion y practis roi sylw i'r mater hwn.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dychwelwyd cyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Mae'r practis yn ofalgar a chefnogol iawn…'*
>
> *'Rwyf bob amser yn derbyn gwasanaeth proffesiynol da iawn; fyddwn i ddim yn mynd i unrhyw le arall.'*
>
> *'Cael mwy o fynediad at gael apwyntiad, oedi am wythnosau lawer weithiau.'*
>
> *'Bodlon iawn ar wasanaeth yr holl staff.'*

**Gofal gydag urddas**

Gwelsom fod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch gan dîm y practis. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd inni weld staff yn trin cleifion mewn ffordd garedig, ac oherwydd bod y cleifion a wnaeth sylwadau yn ein holiaduron a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad wedi gwneud sylwadau cadarnhaol am dîm y practis. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael eu croesawu gan staff y practis, ac ychwanegodd rhai eu sylwadau eu hunain bod y staff wedi gwneud iddynt deimlo bod croeso mawr iddynt.

Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu gofal a'u triniaeth ddeintyddol. Roedd y practis yn darparu gofal

deintyddol y GIG (i'r cleifion hynny sydd wedi'u heithrio rhag talu) a gwasanaethau deintyddol preifat. Nid oedd rhestr brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat yn cael ei harddangos fel yr argymhellir gan y safonau[1] a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Cytunodd perchennog y practis i drefnu i wneud hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn arddangos yn eglur rhestr o brisiau sy'n nodi cost y gwasanaethau deintyddol preifat a ddarperir yn y practis.***

**Gofal amserol**

Mae'r practis yn ymdrechu i sicrhau bod pobl yn derbyn eu triniaeth ddeintyddol yn brydlon. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi sylweddol o ran cael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd y rheiny a brofodd oedi mai'r oedi lleiaf ydoedd ac nad oedd wedi peri problem iddynt. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion pe bai eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu'n absennol.

Roedd rhif cyswllt mewn argyfwng wedi'i arddangos ar bwys mynedfa'r practis, er mwyn i gleifion gael mynediad at driniaeth mewn argyfwng pan oedd y practis ar gau. Roedd y rhif hwn hefyd wedi'i gynnwys yn nhaflen wybodaeth y practis. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

**Cadw'n iach**

Roedd rhywfaint o wybodaeth hyrwyddo iechyd ar gael i helpu pobl i ofalu am eu hanghenion hylendid geneuol eu hunain. Ymysg yr wybodaeth arall oedd ar gael roedd gwybodaeth am roi'r gorau i ysmygu a lleihau'r perygl o strôc.

**Gofal unigol**

Roedd y practis yn cydnabod ei gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer cleifion sydd

---

[1] Mae safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n llywodraethu maes proffesiynol deintyddiaeth.

http://www.gdc-uk.org/Dentalprofessionals/Standards/Pages/home.aspx

ag anawsterau symudedd, a'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn, i gael mynediad i'r adeilad. Roedd y deintyddion a'r hylenydd yn gweithio'n hyblyg, a dywedwyd wrthym eu bod yn gallu gweld cleifion yn yr ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear pe na bai cleifion yn gallu defnyddio'r grisiau.

Roedd systemau ar waith yn y practis i ymrymuso pobl i ddisgrifio'u profiadau o ddefnyddio'r practis ac i weithredu a dysgu o'r adborth. Roedd y practis wedi cyflwyno blychau awgrymiadau'n ddiweddar er mwyn i'r cleifion roi eu hawgrymiadau eu hunain am sut y gellid gwella'r gwasanaeth. Derbyniodd perchennog y practis ein hawgrym y dylai'r practis archwilio'n rheolaidd unrhyw sylwadau a dderbynnir i gyd-fynd â chyfarfodydd tîm y practis. Mae hyn er mwyn ystyried unrhyw sylwadau a dderbyniwyd yn y cyfarfodydd hyn gan weithio fel tîm a chytuno ar gamau gweithredu i wella gwasanaethau fel y bo'n briodol. Roedd y practis hefyd wedi cynnal arolwg cleifion yn ystod mis Awst 2015. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu harchwilio a bod yr adborth yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Roedd tîm y practis wedi nodi maes oedd angen ei wella, a gwelsom fod cynllun wedi cael ei ddatblygu i roi sylw i hyn ac i adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd.

Roedd gan y practis weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon cleifion (cwynion) ynglŷn â thriniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Roedd y rhain yn bodloni'r trefniadau cyfredol ar gyfer lleisio pryderon am ofal a thriniaeth y GIG (a adwaenir fel *Gweithio i Wella*) a gofynion y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Er bod manylion y weithdrefn ar gyfer cwyno am driniaeth y GIG yn cael eu harddangos yn glir yn y practis, roedd rhaid gofyn am y weithdrefn oedd yn ymwneud â thriniaeth breifat. Gwnaethom hysbysu perchennog y practis y dylid arddangos y weithdrefn hon hefyd fel nad oedd cleifion yn gorfod gofyn amdani. Roedd angen diweddaru'r weithdrefn ysgrifenedig ynghylch triniaeth breifat i gynnwys manylion cyswllt cywir AGIC. Cytunodd perchennog y practis i gywiro hyn mewn ymateb i'n canfyddiadau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau addas i arddangos manylion gweithdrefn pryderon (cwynion) y practis sy'n cynnwys triniaeth breifat fel nad oes rhaid i'r cleifion ofyn amdani.***

Dywedwyd wrthym nad oedd gan y practis system ar waith i gofnodi pryderon (cwynion) llafar/anffurfiol a dderbynnir. Gwnaethom hysbysu perchnogion y practis y dylid rhoi system ar waith i ganfod a dysgu gan unrhyw dueddiadau a themâu oedd yn dod i'r amlwg. Cytunodd perchnogion y practis i weithredu a chynnal system gofnodi addas.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cyflenwi gofal diogel ac effeithiol. Roedd mesurau ar waith i amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Gwelsom fod yr offer oedd yn cael eu defnyddio yn y practis i'w gweld mewn cyflwr da ac yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, rydym wedi canfod bod angen gwella'r gwaith o gofnodi gwiriadau ar offer sterileiddio.Roedd y cyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn lân ac wedi'u dodrefnu i hwyluso glanhau effeithiol. Fodd bynnag, er mwyn gwella hyn ymhellach, rydym wedi gofyn yn ffurfiol i berchnogion y practis drefnu i ailosod y sêl rhwng y wal a'r llawr yn yr ardaloedd hyn. Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion, a gweld bod angen rhai gwelliannau er mwyn iddynt fodloni canllawiau safonau clinigol yn llawn.**

### Gofal diogel

Gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Roedd adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu fewn a thu allan yn ôl pob golwg. Roedd mesurau diogelwch ar waith i gadw'r adeilad yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a gynhyrchir gan y practis. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel pan oedd yn aros i gael ei gasglu gan y contractwr.

Gwelsom fod eitemau trydanol wedi cael profion dyfeisiau cludadwy i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân ar gael yn rhwydd, ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu yn y 12 mis diwethaf.

Roedd mesurau ar waith i amddiffyn pobl rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- roedd cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau untro ar gael ac yn hawdd ei gyrraedd
- roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn y prif leoliadau

- roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol yn effeithiol, yn ogystal â'u cludo a'u storio mewn ffordd ddiogel – yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) [2]

Er bod trefniadau addas ar waith, roedd perchnogion y practis yn ystyried symud yr ystafell ddadheintio bresennol fel rhan o ddatblygiad y practis yn y dyfodol. Byddai hyn yn caniatáu i'r holl broses ddadheintio gael ei chwblhau mewn un man, a dylai fod yn well na'r trefniadau presennol. Argymhellir y cam hwn tuag at safon uwch yn nogfen polisi a chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd yr offer oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio i'w gweld mewn cyflwr da, ac roedd gan yr offer awtoclaf[3] dystysgrifau gwiriad diogelwch cyfredol oedd yn cadarnhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd gwiriadau ar offer yn cael eu cynnal bob dydd, ac roedd llyfrau cofnodi wedi cael eu cadw. Roedd gan yr awtoclafau adnoddau cofnodi data i ddarparu dull awtomataidd o gofnodi cylchred sterileiddio pob peiriant awtoclaf. Fodd bynnag, nid oedd y canlyniadau hyn yn cael eu copïo i'r llyfr cofnodion nac unrhyw gofnod parhaol arall i ddangos bod y gylchred wedi cael ei dilysu'n ddyddiol gan y defnyddiwr.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau i sicrhau bod y broses o ddilysu cylchred sterileiddio pob peiriant awtoclaf yn cael ei chofnodi'n ddyddiol yn unol â'r canllawiau a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân ac yn daclus ac wedi'u dodrefnu i hwyluso glanhau effeithiol. Fod bynnag, er mwyn hwyluso glanhau effeithiol a lleihau croes-heintio, rhaid i berchnogion y practis sicrhau bod y sêl rhwng y wal a'r

[2] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[3] Siambr bwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

llawr yn yr ardaloedd hyn yn cael ei ailosod er mwyn rhwystro dŵr a sbwriel rhag cronni.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchnogion y practis sicrhau bod y sêl rhwng y wal a'r llawr yn cael ei newid (neu wneud trefniadau addas eraill) er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y cilfannau rhwng waliau a lloriau’r ystafelloedd triniaeth.***

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn derbyn y feddyginiaeth a'r driniaeth gywir pe bai argyfwng. Gwelsom fod cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael gyda'i gilydd, ynghyd â system i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg). Fodd bynnag, gwelsom fod rhywfaint o offer llwybr anadlu wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben. Pan dynnwyd sylw perchennog y practis at y mater hwn, cafodd ei unioni ar unwaith. Gwnaethom argymell y dylid cynnwys eitemau o'r fath fel rhan o'r system wirio. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

Roedd gan y staff fynediad at gyfres o siartiau llif a oedd yn disgrifio'r camau y dylid eu cymryd pe bai argyfwng claf. Efallai yr hoffai perchnogion y practis storio'r rhain mewn waledi plastig, ynghyd â'r cyffuriau sydd i'w defnyddio, er mwyn hwyluso mynediad haws mewn argyfwng.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'u swyddogaethau penodol pe bai argyfwng claf. Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi mynychu hyfforddiant o'r fath o fewn y 12 mis diwethaf; fodd bynnag, gwelsom fod un aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant cyn y cyfnod hwn, ac o'r herwydd roedd y dystysgrif hyfforddiant wedi dod i ben. Gwnaethom argymell y dylai'r aelod o staff geisio cyngor gan y darparwr hyfforddiant ynglŷn ag unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen yn hyn o beth cyn mynychu hyfforddiant diweddaru. Cytunodd perchennog y practis i roi sylw i'r mater hwn.

Roedd gan y practis weithdrefn i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy’n dod yn agored i niwed neu mewn perygl. Roedd y cofnodion hyfforddi a welsom yn dangos bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ynglŷn â materion diogelu. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo’n gyfforddus i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt yn ymwneud â'r gwaith gydag uwch-staff y practis.

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Dangosodd y tystysgrifau hyfforddi a welsom fod y staff wedi

diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a’u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

**Gofal effeithiol**

Dangosodd trafodaethau gyda pherchnogion y practis ymrwymiad i wella'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn barhaus. Er enghraifft, er bod ystafell ddadheintio ar wahân yn y practis, roeddent wedi canfod y byddai symud yr ystafell ddadheintio'n gam tuag at safonau uwch fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y practis hefyd wedi cwblhau archwiliad o weithdrefnau dadheintio ac wedi nodi amcanion gyda'r nod o wneud gwelliannau'n seiliedig ar arfer gorau. Er bod dull gweithredu cydnabyddedig wedi cael ei ddefnyddio, nid oedd hwn wedi cael ei wneud yn gydnaws â pholisi a chanllawiau ar weithdrefnau dadheintio yng Nghymru. Roedd perchnogion y practis eisoes wedi nodi hyn, a dywedodd perchennog y practis wrthym fod y dull gweithredu hwn yn mynd i gael ei ddefnyddio pan fyddai gweithdrefnau'n cael eu hail archwilio.

Gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella ymhellach mewn perthynas â gofal effeithiol. Er bod ansawdd delweddau pelydrau-X yn gyffredinol wedi'u graddio a'u cofnodi, nid oedd unrhyw system archwilio ffurfiol ar waith. Byddai hyn yn helpu i adnabod problemau ansawdd sy'n ailgodi’n rheolaidd, er mwyn gwneud addasiadau i gynnal ansawdd. Derbyniodd perchennog y practis ein hawgrym i weithredu a chynnal system archwilio addas ar gyfer delweddau pelydrau-X y practis.

Nid oedd y cofnodion cleifion a welsom bob amser wedi cael eu cynnal yn unol â chanllawiau safonau clinigol. Gwnaethom ystyried sampl o 23 o gofnodion deintyddol cleifion, a gwelsom fod ansawdd cadw cofnodion yn amrywio rhwng y deintyddion. Er bod rhai o'r cofnodion yn gynhwysfawr iawn, gwelsom fod angen gwella rhai eraill. Roedd hyn yn ymwneud â diffyg cofnodi'r cyfiawnhad dros gymryd sganiau a chofnodi pelydrau-X a diffyg manylion ynghylch cydsyniad y cleifion, opsiynau triniaeth, a chynllunio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

Dylai perchnogion y practis ystyried cynnal archwiliad practis cyfan o gofnodion cleifion fel rhan o broses sicrhau ansawdd gyffredinol y practis.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom fod arweinyddiaeth yn y practis yn effeithiol o ran pennu cyfeiriad a gwella safonau trwy feithrin diwylliant o ddysgu a datblygu. Gwnaethom ganfod bod angen rhywfaint o welliant o ran gwneud y dogfennau sy'n ofynnol dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat ar gael, ac rydym wedi gofyn i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis roi sylw i hyn.**

Perchnogion y practis oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r practis, gyda chymorth gan weinyddwr. Gwnaeth trafodaethau â staff gadarnhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddogaethau, a'u bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddogaeth, ac sy'n bodloni eu hanghenion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwnaeth y sampl o gofnodion hyfforddiant a welsom gadarnhau hyn. Gwelsom fod staff yn y practis wedi derbyn arfarniad o'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod amcanion wedi eu gosod a threfniadau wedi eu gwneud i adolygu cynnydd mewn perthynas â'r rhain. Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu o fewn tîm y practis yn effeithiol a bod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom gofnodion cyfarfod diweddar a oedd yn dangos tystiolaeth bod materion gweithredol yn cael eu trafod. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael y cyfarfodydd practis yn ddefnyddiol.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith. Roedd cofnodion ar gael oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu cleifion yn hyn o beth. Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, ac roedd tystysgrifau cofrestriad AGIC yn cael eu harddangos yn amlwg, fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat,[4] ar gyfer mwyafrif y deintyddion oedd yn gweithio yn y practis. Nid oedd tystysgrif ar gael gan un deintydd. Roedd perchnogion y practis eisoes yn

[4] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

ymwybodol o'r mater hwn, a chawsom sicrwydd bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i roi sylw iddo. Er nad oedd tystysgrif ar gael, roeddem yn gallu cadarnhau bod y deintydd wedi cofrestru ag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat. Hefyd, gwelsom fod angen diweddaru tystysgrif deintydd arall i adlewyrchu manylion cyswllt presennol AGIC. Yn unol â'r rheoliadau, cyfrifoldeb deintyddion unigol yw hysbysu AGIC am newidiadau. Cytunodd perchennog y practis i roi sylw i'r mater hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddiaeth breifat wneud trefniadau i arddangos eu tystysgrifau cofrestriad AGIC yn amlwg yn y practis.***

Er bod gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nid oedd rhai o'r rhain wedi cael eu cyhoeddi o fewn y tair blynedd blaenorol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwnaethom egluro mai cyfrifoldeb y deintyddion unigol oedd hwn. Cawsom ein sicrhau gan berchennog y practis y byddai trefniadau'n cael eu gwneud er mwyn cael tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.


***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i ddeintyddion sy'n bwriadu darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn y practis, ac nad oes ganddynt dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i chyhoeddi o fewn y tair blynedd diwethaf, wneud trefniadau i anfon copi o'u tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i diweddaru at AGIC.***

## 5. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[5] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[6] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio

[5] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, roedd yn rhaid i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghlinig Deintyddol Whitehouse yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

## Practis: Clinig Deintyddol Whitehouse

## Dyddiad yr arolygiad: 28 Medi 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn arddangos yn eglur rhestr o brisiau sy’n nodi cost y gwasanaethau deintyddol preifat a ddarperir yn y practis.<br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 2.4.1] | Safon 4.2 | Mae rhestr brisiau gyda manylion ffioedd ar gyfer deintyddiaeth breifat yn cael ei harddangos yn y ddwy ystafell aros yn awr. | R. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 7 | Rhaid i berchnogion y practis wneud | Rheoliad | Mae’r gweithdrefn gwyno ar gyfer | R. Griffiths | Wedi'i |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | trefniadau addas i arddangos manylion gweithdrefn pryderon (cwynion) y practis sy'n cynnwys triniaeth breifat fel nad oes rhaid i'r cleifion ofyn amdani.<br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 5.1.5] | 15(2) | triniaethau preifat y practis yn cael ei harddangos nesaf at weithdrefn gwyno'r GIG yn y dderbynfa yn awr. | | gwblhau |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau i sicrhau bod y broses o ddilysu cylchred sterileiddio pob peiriant awtoclaf yn cael ei chofnodi'n ddyddiol yn unol â'r canllawiau a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.<br>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Pennod 4] | Safon 2.4 | Mae gliniadur pwrpasol wedi cael ei brynu, ac mae'r feddalwedd briodol wedi cael ei gosod arno i gofnodi'r cofnodion sterileiddio'n ddyddiol. Mae'r rhain yn cael eu gwirio a'u monitro bob bore. | R. Griffiths a staff nyrsio | Wedi'i gwblhau |
| 10 | Dylai perchnogion y practis sicrhau bod y sêl rhwng y wal a'r llawr yn cael ei newid (neu wneud trefniadau addas eraill) er mwyn rhwystro dŵr, | Rheoliad 14 (6)<br>Safon 2.4 | Mae sêl silicon wedi cael ei gosod rhwng y waliau a'r lloriau yn yr ystafelloedd triniaeth. | R. Griffiths | Wedi'i gwblhau |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | llwch a sbwriel rhag cronni yn y cilfannau rhwng waliau a lloriau'r ystafelloedd triniaeth.<br>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Pennod 6] | | | | |
| 11 | Dylai'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.<br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1] | Safon 3.5 | Rwyf wedi derbyn cyngor gan fy sefydliad indemniad o ran lle i gael gwybodaeth briodol am safonau cadw cofnodion, ac mae wedi rhoi protocol archwiliad i mi ei ddilyn er mwyn cwblhau archwiliad o gadw cofnodion. | R. Griffiths | Archwiliad parhaus dros y 6/12 mis nesaf<br>Mae'r wybodaeth eisoes wedi'i dosbarthu i glinigwyr. |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 13 | Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddiaeth breifat wneud trefniadau i arddangos eu tystysgrifau cofrestriad AGIC yn amlwg yn y practis. | Rheoliad 4 | Mae'r holl dystysgrifau'n cael eu dangos yn amlwg bellach. | R. Griffiths | Cwblhawyd |
| 13 | Mae'n rhaid i ddeintyddion sy'n | Rheoliad | Mae cais yn cael ei wneud am | R. Griffiths | Ar y gweill |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | bwriadu darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn y practis, ac nad oes ganddynt dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i chyflwyno o fewn y tair blynedd diwethaf, wneud trefniadau i anfon copi o'u tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i diweddaru at AGIC. | 13(3)(c), Atodlen 2 Paragraff 2 | dystysgrifau uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd [TRWY SEFYDLIAD AMBARÉL] ar gyfer pob deintydd nad yw'n meddu ar dystysgrif gyfredol. Unwaith i ni dderbyn y rhain, byddant yn cael eu hanfon at AGIC. | | yn amodol ar dderbyn y tystysgrifau, ac wedyn cyn gynted â phosib. Rwyf wedi cael fy hysbysu y gall hyn gymryd hyd at 10 wythnos. |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Rhys Griffiths............................................................**

**Teitl:** **Prif Ddeintydd y Practis..................................................**

**Dyddiad:** **17 Tachwedd 2015..........................................................**